DEDDF PRIFFYRDD 1980

Gorchymyn Gwyro Llwybr Troed Cyhoeddus (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 53 yng Nghymuned Cefn)
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2005

Ar 12 Rhagfyr 2007, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gorchymyn uchod a wnaed o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r llwybr troed cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r Rhybudd hwn i linell a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd a map y Gorchymyn wedi eu gosod yn Neuadd y Dref, Wrecsam a'r Swyddfa Bost, 4 Rhodfa'r Coetir, Plas Madoc, Acrefair a gellir eu gweld am ddim yn ystod oriau swyddfa/agor arferol. Gellir cael copi o'r Gorchymyn a map am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Rhagfyr 2007 ond os yw unigolyn a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn eisiau cwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y Ddeddf neu unrhyw reoliad arall a wnaed ganddi, gall ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys, o dan baragraff 2 o Atodiad 2 i'r Ddeddf fel y'i cymhwysir drwy baragraff 5 o Atodiad 6 i'r Ddeddf, o fewn 6 wythnos o 13 Rhagfyr 2007.

ATODIAD
Rhan 1
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd bresennol

Y rhan hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 53 yng Nghymuned Cefn ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o bwynt gerllaw ymyl y briffordd ar gyfeirnod grid 32818 34398 i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am bellter oddeutu 99 metr i bwynt i'r dwyrain o Garden Cottage ar gyfeirnod grid 32826 34392 o led amhendant fel y dangosir gan linell ddu drom rhwng pwyntiau A - B ar y map a atodir i'r Rhybudd hwn.

Rhan 2
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd newydd

Llwybr Troed Cyhoeddus, sef llwybr y mae gan y cyhoedd hawl tramwy arno ar droed yn unig, 1.8 metr o led, o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 53 ar gyfeirnod grid 32818 34398 i gyfeiriad gogledd-orllewinol yn gyffredinol am bellter oddeutu 22 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 32818 34400 yna i gyfeiriad dwyreiniol-de-ddwyreiniol yn gyffredinol am bellter

oddeutu 120 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 32828 34394, yna i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am bellter oddeutu 33 metr i Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 53 ar gyfeirnod grid 32826 34392, cyfanswm hyd o 175 metr, fel y dangosir gan linell ddu drom doredig rhwng pwyntiau A-C-D-B ar y map a atodir i'r Rhybudd hwn.

Dyddiedig y 13 diwrnod hwn o fis Rhagfyr 2007

Trevor Coxon
Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

MR/LMK/PATHORDERS/NOTICE2FOOTPATH53CEFNSITE